**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1232
Ein cyf/Our ref: JJ/00647/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Mehefin 2023

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref yn gofyn am ddiweddariad yn dilyn yr Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd yn Sioe Frenhinol Cymru, a diweddariad ar y Nodyn Cyngor Technegol ar gyfer datblygu ffermio dwys.

Cadeiriodd y Prif Weinidog ail Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd ar 8 Mawrth. Cafodd datganiad ysgrifenedig ei gyhoeddi a oedd yn amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd a'r ymrwymiadau a wnaed gan y sefydliadau a gymerodd ran. Mae datganiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-yr-ail-uwchgynhadledd-llygredd-afonydd.

Roedd yr uwchgynhadledd yn cefnogi cynllun gweithredu o'r enw 'Lleihau Pwysau ar Ddalgylchoedd Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) i Helpu i Gyflenwi Tai Fforddiadwy'. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys llunio amryw ganllawiau i helpu i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan lefelau ffosfforws, ac mae hwn hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://www.llyw.cymru/lleihau-pwysau-ar-ddalgylchoedd-afonydd-ardal-cadwraeth-arbennig-sac-i-helpu-i-gyflenwi-tai-html.

Yn ystod y gynhadledd cydnabuwyd nad oes un mesur sengl a fydd yn datrys y broblem hon, a bydd hyd yn oed nifer o fesurau'n cymryd amser i ddadwneud y difrod cronnol a wnaed yn y gorffennol. Un o'r themâu yn y cynllun gweithredu yw'r angen i weithio mewn ffordd adeiladol gyda'r sector amaethyddiaeth i ddod o hyd i atebion i leihau lefelau gormodol o faethynnau yn y pridd ac yn afonydd Cymru sydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig. Rwy'n disgwyl i'r sector dofednod gyfrannu at y gwaith hwn.

Rwy'n cydnabod bod gan ddatblygiadau dofednod y potensial i gynyddu lefelau o faethynnau o fewn dalgylchoedd afonydd, felly, rwy'n ystyried yn ofalus gais i alw i mewn yr holl geisiadau cynllunio ar gyfer unedau dofednod sydd o flaen Cyngor Sir Powys. Mae cyfarwyddiadau sy'n atal y Cyngor rhag cymeradwyo'r ceisiadau wedi cael eu cyhoeddi'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddiweddar gan swyddogion. Byddaf yn eich hysbysu a ydwyf wedi penderfynu galw'r ceisiadau i mewn neu beidio maes o law.

Mae'n dda gennyf gadarnhau bod gwaith yn mynd rhagddo ar gaffael Cyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan, a fydd yn helpu awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr i nodi lefel y lliniaru ffosfforws sydd ei hangen i alluogi datblygiadau i fynd rhagddynt mewn dalgylchoedd afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig. Mae contractwyr newydd gael eu penodi i gyflwyno cyfrifiannell weithredol erbyn mis Gorffennaf, ac wedyn darparu rhaglen hyfforddi.

Yn ogystal, mae adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â gweithfeydd trin preifat mewn ardaloedd â charthffosydd cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn ystyried a oes unrhyw fesurau tymor byr y gellid eu rhoi ar waith, wrth i atebion tymor hir i lefelau ffosfforws gael eu datblygu gan Fyrddau Rheoli Maethynnau, wedi'u sefydlu i helpu i hyrwyddo mesurau lleol i helpu i wella ansawdd dalgylchoedd afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig.

Cafodd Gweithgor Cynllunio Gwlad a Thref ar Ffermio Dwys ei sefydlu yn 2019. Roedd y Gweithgor yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, undebau ffermwyr a grwpiau amgylcheddol. Cafodd y Gweithgor ei sefydlu i gyfrannu at Nodyn Cyngor Technegol arfaethedig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer datblygiadau ffermio dwys, ond cafodd ei atal dros dro oherwydd y pandemig. Er ein bod yn bwriadu ailafael yn y gwaith hwn, mae blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i fwrw ymlaen â Chyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan ac adolygu canllawiau mewn perthynas â gweithfeydd trin preifat.

Yn gywir,



**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd